# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd R L Thomas**

**Ward: Gorllewin Maesteg**

**Plaid: Annibynwyr Llynfi, fel rhan o'r Gynghrair Ddemocrataidd**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Gorllewin Maesteg** ar 5 Mai 2022, *sef fy nhrydydd tymor llawn ers 2012*. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, fy nghyfrifoldebau a'm gweithgareddau ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Ross Thomas

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi sicrhau fy mod ar gael yn rhwydd i etholwyr dros y ffôn, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol – yn ogystal ag wyneb yn wyneb ac yn fy nghartref. Rwy'n ceisio darparu ymateb cychwynnol o fewn 24 awr (yn aml yn gynt o lawer) a byddaf yn gofyn am gyngor gan swyddogion y cyngor lle bo angen. Mae ymholiadau gan drigolion, fel arfer, wedi bod yn eang iawn, o briffyrdd a gwasanaethau stryd, gwastraff ac ailgylchu ac adfywio canol trefi, i ysgolion, iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau cymdeithasol a llawer mwy.

Yr wyf yn cynrychioli buddiannau fy etholwyr yn ddiwyd mewn cyfarfodydd cyngor llawn a chyfarfodydd pwyllgorau eraill e.e. craffu ar wasanaethau cymdeithasol a chraffu ar drosolwg corfforaethol.

Hoffwn dynnu sylw'r trigolion at fy nhudalen Facebook – y Cynghorydd Ross Thomas,

| |
|---|
| Maesteg – i gael trosolwg mwy manwl ac amserol o’m gweithgarwch dros y misoedd diwethaf. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Rwy’n gweithio’n agos gyda rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys:<br><br>Heddlu De Cymru – cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion lleol i drafod pryderon ac arsylwadau gan breswylwyr<br><br>Landlordiaid cymdeithasol, megis Cymoedd i'r Arfordir – codi materion a cheisio penderfyniadau ar ran tenantiaid<br><br>Yn benodol dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cysylltu ar ran trigolion â chontractwyr masnachol sy’n gwneud gwaith seilwaith helaeth yng Nghwm Llynfi (e.e. band eang) lle mae safon y gwaith i ‘ddatrys’ diffygion wedi bod yn is na’r disgwyl. Mae hyn wedi bod yn broblem sylweddol ar ffyrdd a phalmentydd lleol. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Rwy’n aelod o ac yn cefnogi nifer o grwpiau/sefydliadau cymunedol gan gynnwys Cymdeithas Theatr Gerddorol Maesteg (Is-lywydd); Côr Noteworthy Musical (Is-lywydd); Cyfeillion Parc Lles Maesteg (Is-gadeirydd); Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Maesteg (Cadeirydd).<br><br>Rwyf hefyd yn cynrychioli’r AALl ar gyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig (Is-gadeirydd) ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.<br><br>Fel Arweinydd Grŵp, rwy’n eistedd ar/ caf fy ngwahodd i gyfrannu at bwyllgorau ychwanegol fel y Grŵp Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cyfarfodydd Arweinwyr Grŵp rheolaidd gydag uwch swyddogion, Pwyllgor Safonau’r cyngor ac eraill. |
| **Cynghorydd: R L Thomas** **Dyddiad: Gorffennaf 2024** |